COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 31 IONAWR 2018, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie | T Giffard |
| RM Granville | DG Howells | A Hussain | RM James |
| B Jones | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | JR McCarthy | DG Owen | Cyng |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | SG Smith |
| JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas | T Thomas |
| JH Tildesley MBE | SR Vidal | MC Voisey | LM Walters |
| KJ Watts | CA Webster | DBF White | PJ White |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | JE Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MC Clarke, N Clarke, CA Green a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Susan Jones | Rheolwr Cynllunio Datblygu |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

113. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y Datganiadau o Fuddiant dilynol:

Datganodd y Cynghorydd PJ White fuddiant personol yn eitem 7 yr agenda - Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg fel Aelod o Neuadd y Dref Maesteg. Datganodd Y Cynghorydd fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu'n derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Tynnodd y Cynghorydd White yn ôl o'r cyfarfod wrth iddynt ystyried yr eitem hon.

Datganodd Y Cynghorydd DBF White fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu'n derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor, ac fe dynnodd y Cynghorydd White yn ôl o'r cyfarfod wrth iddynt ystyried yr eitem hon.

Datganodd Y Cynghorydd JM McCarthy fuddiant personol yn eitem 6 yr agenda - Rhaglen Foderneiddio Ysgolion Band B fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Pencoed. Hefyd datganodd y Cynghorydd McCarthy fuddiant personol yn eitem 7 agenda - Neuadd y Dref Maesteg fel Aelod o Ymddiriedolaeth Awen.

Datganodd y Cynghorydd MC Voisey fuddiant personol yn eitem 8 yr agenda - Cais Cynllunio Croes gan ei fod yn berchen ar eiddo ac yn rhedeg busnes mewn man arall ar Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw ei fusnes mewn unrhyw berthynas fasnachol gyda'r ymgeisydd.

Datganodd y Cynghorydd JC Spanswick fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu yn derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor ac fe dynnodd e yn ôl o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd SB Smith fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu yn derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor ac fe dynnodd e yn ôl o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd D Davies fuddiant personol yn eitem 7 yr agenda – Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg fel Aelod o Neuadd y Dref Maesteg. Datganodd y Cynghorydd Davies fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu yn derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Tynnodd y Cynghorydd Davies yn ôl o'r cyfarfod wrth iddynt ystyried yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd RJ Collins fuddiant personol yn eitem 7 yr agenda - Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg fel Aelod o Neuadd y Dref Maesteg.

Datganodd y Cynghorydd McCarthy fuddiant personol hefyd yn eitem 7 yr agenda - Neuadd y Dref Maesteg fel Aelod o Ymddiriedolaeth Awen.

Datganodd y Cynghorydd RM James fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu yn derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor ac fe dynnodd e yn ôl o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd TH Beedle fuddiant personol yn eitem 6 yr agenda - Rhaglen Foderneiddio Ysgolion Band B fel aelod o'r Bwrdd Adolygu Strategol a Throsfwaol. Datganodd y Cynghorydd Beedle fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod aelod o'r teulu yn derbyn gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Tynnodd y Cynghorydd Beedle yn ôl o'r cyfarfod wrth iddynt ystyried yr eitem hon.

114. <u>CYMERADWYO'R COFNODION</u>

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 20 Rhagfyr 2017 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

115. <u>I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN:</u>

<u>Y Maer</u>

Cyhoeddodd y Maer ei bod wedi mynychu nifer o wasanaethau carolau dros y Nadolig, un ohonynt oedd cyngerdd y staff yn Siambr y Cyngor. Diolchodd i'r holl staff oedd wedi cyfranogi at drefnu'r digwyddiad difyr hwn a'i Chaplan am fynychu i roi bendith.

Fe wnaeth y Maer fynychu "Helfa Dyn" ym Mhîl ar Ddydd Calan sy'n ddigwyddiad

blynyddol gyda'r Three Counties Bloodhounds [Gwaetgwn y Tair Sir] ac roedd nifer dda yn bresennol.

Hefyd mynychodd y Maer berfformiad o'r Pantomeim Cinderella ym Mhafiliwn Porthcawl a oedd yn bleserus iawn ac ynghyd â'r Maer y Dref ar gyfer Porthcawl Lorri Desmond Williams Cyflwynwydsiec iddynt, i'w rannu rhwng eu Helusennau.

Roedd yn anrhydedd i'r Maer gynrychioli'r awdurdod yn y seremoni i Goffa'r Holocost yn Theatr Sony Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hwn yn ddigwyddiad emosiynol a oedd yn procio'r meddwl a oedd yn cynnwys barddoniaeth a ddarllenwyd gan ddisgyblion ein hysgolion cyfun lleol ac anerchiad gan Eric Muranghwa Eugene MBE a goroeswr Hil-laddiad 1994yn erbyn y Tutsi yn Rwanda, a gollodd 35 o aelodau ei deulu yn ystod yr erchyllter . Fe ddatganodd hi ei fod yn ei bod yn ddiddorol iawn i wrando ar hanes ei fywyd ers dod i'r wlad hon 20 mlynedd yn ôl. Hefyd mynychodd y Maer ail Ddigwyddiad Holocost yn Neuadd y Ddinas Caerdydd a oedd hefyd yn emosiynol iawn.

Hefyd cyhoeddodd y Maer ei bod hi wedi mynychu cynhyrchiad o Phantom of the Opera yn y Pafiliwn gan Ysgol Gyfun Porthcawl a oedd yn bleser ac yn broffesiynol iawn. Datganodd hi mai syrpréis ychwanegol oedd bod nifer o'r disgyblion yn perthyn i Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn un o'i helusennau dewisol a'i bod yn gobeithio y byddent yn dilyn eu breuddwydion a mynd ymlaen i actio a chanu ym myd y Theatr Gerddorol. Roedd y Maer a'r Cydweddog yn freintiedig i gwrdd â'r cast, athrawon a rhieni ar ôl y perfformiad. Diolchodd i'r cast a'r athrwaon am eu holl waith caled.

Cyhoeddodd y Maer ei bod wedi mynychu'r Seremoni Gwobrwyon ar gyfer yr Arglwydd Raglaw yng Nghanolfan Gynadledda Pontypridd De Cymru. Hefyd mynychodd y Gwobrau MPCT yn Stadiwm Dinas Caerdydd, a oedd yn cynnwys arddangosiadau, gorymdeithio a chyflwyno tystysgrifau. Fe wnaeth y Maer a'r Cydweddog fwynhau'r seremoni yn fawr iawn ac mae hi'n falch iawn o'r dynion a merched ifanc yn cymryd rhan, rhai ohonynt wedi cael eu derbyn i mewn i'r Lluoedd Arfog.

Cyhoeddodd y Maer â thristwch fod y cyn Gynghorydd, Mrs. Margaret Bertorelli, wedi marw ar fore dydd Sul. Fe wnaeth hi hysbysu'r Cyngor bod Mrs Bertorelli yn Gynghorydd Bwrdeistref a Chynghorydd Tref Pen-y-bont ar Ogwr fel ei gilydd ac yn gyn Ddirprwy Faer Tref. Dywedodd fod Mrs Bertorelli wedi gweithio'n galed yn ei bywyd cyhoeddus ac wrth wasanaethu fel Cynghorydd a bod hyn wedi bod yn rhan bwysig o'i bywyd. Mae'r Cyngor yn cydymdeimlo â'i theulu yn ystod yr amser trist hwn.

Safodd pob un oedd yn bresennol mewn tawelwch fel nod o barch.

Gofynnodd y Maer i'r Cynghorydd G Thomas gyhoeddi bod Harry Morgan, sy'n 18 mlwydd oed o Glwb Rygbi Bryncethin, wedi derbyn ei gap rygbi cyntaf gyda Chymru.

Y Dirprwy Arweinydd

Fe wnaeth y Dirprwy Arweinydd hysbysu'r Cyngor fod yr ystadegau diweddaraf wedi datgelu bod cynnydd ailgylchu anhygoel o 68 y cant wedi'i gasglu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
Roedd cardbord, plastig, papur, gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchadwy eraill yn dod i gyfanswm mawr o 1,138 o dunelli. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 676 tunnell ar 2016-17, tra bod gwastraff tirlenwi wedi gweld gostyngiad o 29 y cant o 990 o dunelli i lawr i 704. Roedd hyn wedi dangos yn union faint o wastraff y Nadolig sy'n ailgylchadwy, ac fe ddiochodd i bawb a oedd wedi gwneud y fath ymdrech wych.

Cyhoeddodd, nawr bod y trigolion wedi cael cyfle i fynd i'r afael â'r gweithdrefnau newydd, bydd gorfodi'r cyfyngiad dwy fag yn dechrau. Bydd bagiau gormodol yn cael eu

sticeru, a bydd nodiadau atgoffa'n cael eu cyhoeddi i gartrefi.
Hefyd bydd swyddogion yn ymweld â chartrefi lle mae hon yn broblem gyson neu ailadroddus i gynnig cymorth, a'u helpu i fynd i'r afael â'r gweithdrefnau. Mewn achosion eithafol, byddant hefyd yn cyhoeddi cosbau penodedig, ond hwn fydd y penderfyniad pan fetha popeth arall pan fydd pob opsiwn arall wedi methu. Dywedodd fod y Cyngor a'i bartner am weithio gydag aelwydydd i gynyddu ailgylchu ar draws y fwrdeistref sirol, a bydd y pwyslais yn parhau i fod â ffocws yn gadarn ar hyn. Gall trigolion lleol ddysgu rhagor trwy fynd i **www.recycleforbridgend.wales**

Hefyd cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd y bydd hyfforddiant mentora Aelodau yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 1 Chwefror am 4pm, ac mae Aelodau sydd angen mynychu eisoes wedi'u nodwyd o grwpiau gwleidyddol. Atgoffodd yr Aelodau fod sesiwn cydraddoldebau ac amrywiaeth gan Stonewall ar 6 Chwefror am 4pm. Bydd y briffio cyn-Gyngor ar 28 Chwefror yn ystyried y Cynllun Datblygu Lleol a'r gobaith yw y bydd pob Aelod yn mynychu'r sesiwn hwn.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth y Cyngor fod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi dosbarthu gwybodaeth yn ddiweddar ynghylch hyfforddiant TGCh a gofynnodd i'r Aelodau gysylltu ag ef yn uniongyrchol i wneud trefniadau.

Yn olaf, gofynnodd fod yr holl Aelodau'n sicrhau eu bod wedi cwblhau'r modiwlau ar gyfer diogelu data a diogelu e-ddysgu.

Yr Aelod Cabinet dros Gymunedau

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau y gallai Aelodau fod â ddiddordeb i glywed y disgwylir i'r holl oleuadau stryd o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod yn o ran ynni fodelau LED effeithlon o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae cyfanswm o 20,000 o oleuadau stryd yn y bwrdeistref sirol, ac mae 8,000 ohonynt eisoes yn LED, ac mae'r rhain yn defnyddio rhwng 30 a 60 y cant yn llai o ynni. Mae cynlluniau ar y gweill i uwchraddio'r 12,000 sy'n weddill. Datganodd fod goleuadau LED yn dod â gwarant o 20 mlynedd, a'u bod yn gymharol rydd rhag angen cynnal a chadw. Gan eu bod yn fwy cyfeiriadol ar y cyfan, a'ubod yn gallu goleuo ffyrdd yn fwy effeithlon, byddant yn ei wneud yn fwy diogel ar gyfer gyrwyr a cherddwyr, ac os oes angen gallant hefyd gael ei pylu ar adegau rhagosodedig er mwyn sicrhau arbedion ynni eraill.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Gymunedau hysbysu Aelodau y gallent hefyd fod wedi sylwi bod arwyddion wedi cael eu codi yn ac o amgylch Stryd yr Angel gan hysbysu y bydd gwaith yn dechrau'n fuan. Mae hwn yn rhan o gynllun i wneud canol tref Pen-y-bont ar Ogwr hyd yn oed yn fwy cyfeillgar i feiciau, ac mae'n cynnwys ymestyn y llwybr beicio cenedlaethol rhwng Sarn a Phen-y-bont ar Ogwr fel ei fod yn ymuno â Meysydd Pontnewydd, Broadlands, Cefn Glas a Threlales. Bydd y llwybr troed trwy ardal maes parcio Embassy yn cael ei ledaenu a'i wneud yn ddiogelach, a chaiff rheiliau uwch eu gosod ar hyd bont droed Dunraven Place. Ar Stryd yr Angel, bydd y bae llwytho ar flaen y Swyddfeydd Dinesig yn dod yn fae parcio mwy ar gyfer pobl anabl, a chaiff y polion baneri eu symud. Bydd y llwybr troed ar lan yr afon ar hyd Stryd yr Angel yn cael ei ledaenu, caiff y rheiliau wrth Bont Stryd y Dŵr eu codi, a chaiff y croesfan pelican wrth gyffordd Stryd y Dŵr a Stryd yr Angel ei drosi'n groesfan twcan sy'n addas ar gyfer beicwyr. Bydd arwyddion yn cael eu gosod ar hyd y llwybr, a disgwylid y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Gymunedau hybysu Aelodau ei fod wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan y Cynghorydd Shaw o Bontycymer yn ddiweddar lle cytunodd saith sefydliad lleol a chenedlaethol i gydweithio gyda thrigolion y Cwm Garw er mwyn sicrhau bod y llwybr cymunedol poblogaidd yn parhau i fod yn agored ac yn addas i'w

ddefnyddio. Dywedodd fod hwn yn ddatblygiad sylweddol a allai dorri sefyllfa ddiddatrys ar ddyfodol y llwybr, a oedd yn arfer cael ei gynnal gan Groundwork Bridgend cyn trosglwyddo i Gymdeithas Rheilffordd Treftadaeth Cwm Garw. Mae ymweliad safle'n cael ei drefnu fel y geeir nodi gwaith angenrheidiol, mae taflenni ffeithiau'n cael eu llunio ac mae cynllun yn cael ei ddatblygu ar gyfer rheoli isdyfiant a bywyd gwyllt. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn dod yn enghraifft o sut y gall sefydliadau a thrigolion lleol weithio gyda'i gilydd er lles y gymuned.

Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod tŷ y gofalwr yn Ysgol Heronsbridge [Pont y Crëyr wedi cael ei drosi'n uned breswyl newydd sy'n darparu cymorth trwy gydol y flwyddyn i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Roedd hynny'n golygu, am y tro cyntaf, y gellir cynnig y gwasanaeth hwn i blant lleol o fewn y bwrdeistref sirol yn hytrach na'u hanfon i rywle arall. Yn ogystal â chynnig mwy o sefydlogrwydd a pharhad i blant a phobl ifanc, bydd yr uned newydd yn arbed arian i'r awdurdod. Dywedodd fod adborth hyd yn hyn wedi bod yn wych, ac roedd yn sicr y bydd Aelodau'n cytuno ei fod yn gwbl briodol i'r uned wedi gael ei henwi Tŷ Harwood er anrhydedd gofalwr blaenorol yr ysgol.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gyhoeddi hefyd, os oes unrhyw Aelod yn ymwybodol o etholwyr sydd ag anawsterau clywed, efallai y byddent am roi gwybod iddynt fod Action For Hearing Loss Cymru yn cynnnal sesiwn galw heibio yn Llyfrgell Pencoed rhwng 2.00 - 3:00 bob trydydd dydd Llun y mis. Mae pob sesiwn wedi'i gynllunio i helpu pobl i fynd i'r afael â'u cymhorthion clyw GIG a rheoli eu colled clyw yn fwy effeithiol. Mae'r sesiynau hefyd yn cynnig cymorth gyda thiwbiau, mân atgyweiriadau, glanhau, ailosod batris, hyfforddiant sylfaenol ar sut i ddefnyddio a chynnalcyfarpar, manylion ynghylch gwasanaethau defnyddiol eraill, a llawer mwy. Mae rhagor o fanylion ar gael ar y wefan Action For Hearing Loss Cymru.

Yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol fod grym chwaraeon unwaith eto wedi cael ei ddefnyddio i helpu grŵp o bobl ifanc i wneud dewisiadau bywyd positif, diolch i'r rhaglen Get On Track. Wedi'i ddarparu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Y Fonesig Kelly Holmes, mae'r cynllun yn defnyddio athletwyr elitaidd fel mentoriaid ysbrydoledig. Mae'r cam diweddaraf wedi gweld chwaraewr rygbi merched Cymru Philippa Tuttiett a'r nofiwr Paralympaidd Liz Johnson yn arwain pymtheg o bobl ifanc dros bum wythnos o wahanol weithgareddau.
Mae cyfranogwyr wedi dysgu sgiliau cymdeithasol pwysig, wedi ennill cymwysterau Cymorth Cyntaf, wedi dysgu am faetheg a choginio, wedi'u diweddaru ar sgiliau cyfweld a CV, ac wedi gwirfoddoli gyda'r Fenter Gymdeithasol Steer cyn rhedeg sesiynau chwaraeon a gweithgareddau gyda disgyblion yn Ysgol Gyfun Maesteg. Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gynnal y rhaglen yn 2016. Hwn oedd y trydydd tro bod y cynllun 'Get on Track' wedi gweithio gyda phobl ifanc gan fod yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol yn hapus i gadarnhau, o fewn wyth mis o'r rhaglen gyntaf, fod bron i dri chwarter yr holl gyfranogwyr wedi cael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Dywedodd hi fod y cynllun yn werth chweil ac roedd yn gobeithio y byddai'n parhau i ddatblygu ymhellach.

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r dyfodol y gall gwirfoddoli fod yn ffordd wych o wella lles meddyliol, aros yn weithgar a gwneud ffrindiau newydd a mynd allan, ac y gallai Aelodau fod â diddordeb mewn rhoi gwybod i'w hetholwyr am rai cyfleoedd sydd wedi codi'n ddiweddar. Dywedodd fod tîm cefn gwlad y Cyngor yn chwilio am wirfoddolwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau rheoli coetir mewn

gwarchodfeydd natur lleol y mis nesaf yng Nghoed Tremain ym Mracla ar 2 Chwefror, a dwy yng Nghoed Pwll Broga yn y Pîl ar 9 ac 16 Chwefror.
Dywedodd fod rhagor o wybodaeth ar gael gan y tîm, a thrwy ymweld â'r wefan Cymdogaethau Natural i gael gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli eraill.

Yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Hysbysodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y Cyngor fod y 25ain adroddiad blynyddol yn lynol a gyhoeddwyd gan Estyn wedi amlygu pum ysgol leol o Fwrdeistref Sirol Pen-y fel astudiaethau achos ar gyfer arfer gorau yng Nghymru. Amlygodd yr adroddiad fod Ysgol Cynwyd Sant yn cynllunio gweithgareddau dysgu cyffrous, creadigol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, tra bod Ysgol Gynradd Bracla yn gwneud teuluoedd yn rhan allweddol o'r broses ddysgu, gan arwain at wella safonau llythrennedd, rhifedd a phresenoldeb ar draws yr ysgol.

Hysbysodd Aelodau fod ymyrraeth fathemategol yn Ysgol Gynradd Hengastell wedi trawsnewid y pwnHefyd yr ysgol yw'r cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio system newydd i gefnogi therapi lleferydd ac iaith disgyblion, ac mae wedi gweithio gyda busnesau a phrifysgolion i ddatblygu wythnos o wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg sydd wedi gwella dyheadau a chyrhaeddiad disgyblion.

Dywedodd fod adolygiad o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Gyfun Bryntirion wedi cael ei amlygu ar gyfer galluogi'r ysgol i ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol cadarn, a gefnogir gan y gwaith o ddatblygu tîm arweinyddiaeth ganol gref a chreu ethos cynhwysol ar gyfer myfyrwyr a staff fel ei gilydd. Hefyd hysbysodd Aelodau fod Heronsbridge [Pont y Crëyr] wedi bod yn fedrus wrth drefnu cyfleoedd cyfranogi i ddisgyblion i gyfrannu at ddatblygu hunan-hyder a sgiliau cymdeithasol, gyda llawer yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol drostynt eu hunain a'u Dysgu.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio Sarah Davies, athrawes o Ysgol Bryn Castell, a ddewiswyd i fynychu'r rhaglen 'Sefydliad Athrawon' yn Nau Dŷ'r Senedd. Wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth fanwl o'r broses ddemocrataidd i bobl sy'n gweithio ym myd addysg o gymunedau ledled y DU, mae'r sefydliad yn hyfforddi i ddod yn Genhadon Athrawon Senedd y DU. Dewiswyd Sarah Davies o fwy na 170 o athrawon i fynychu'r hyfforddiant. Fe gyflwynodd gyfle gwych iddi ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch democratiaeth, ac roedd hi'n sicr y bydd ei disgyblion a'i chyd-athrawon yn elwa ohono pan fydd yn dychwelyd.

Y Prif Weithredwr

Fe wnaeth y Prif Weithredwr ddiweddaru'r Aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf parthed y trafodaethau cyflog ar gyfer 2018. Roedd trafodaethau ag undebau llafur yn cael eu cynnal yn genedlaethol ac yn cyflwyno sefyllfa'r Cyngor fel cyflogwr. Dywedodd fod y dyfarniad cyflog sydd wedi'i gyflwyno o fudd arbennig staff sydd rhwng pwyntiau chwech a phedwar ar bymtheg ar y golofn gyflog. Mae cynnydd yn amrywio o 3.7 y cant i 9.1 y cant ar ben isaf y raddfa, a dau y cant ar gyfer staff sydd ar y pwynt golofn gyflog ugain neu'n uwch.

Dywedodd wrth Aelodau fod Pwyllgor NJC Unsain wedi pleidleisio i wrthod y cynnig, ond mae hefyd wedi datgan mai hyn yw'r gorau y gellir ei gyflawni heb weithredu diwydiannol llawn. Ar hyn o bryd mae Unsain yn pleidleisio aelodau a fydd yn cau ar 8 Mawrth. Mae Pwyllgor Sector Diwydiannol Cenedlaethol Unite wedi pleidleisio'n unfrydol i argymell bod ei aelodau'n gwrthod y cynnig, tra bod GMB wedi cynghori eu haelodau mai hwn yw'r cynnig gorau i gael ei gyflawni trwy negodi, a bydd eu pleidlais yn cau ar 9 Mawrth.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cyngor y bydd y codiad cyflog yn cael ei weithredu ar 1 Ebrill 2018, ac os mai canlyniad unrhyw un o'r pleidleisiau undeb llafur hyn yw gwrthod y cynnig, bydd angen i'r Cyngor ddiystyru ei bwynt chwech cyfredol ar y golofn gyflog, sef £7.78, a'i ddisodli gyda'r gyfradd isafswm cyflog genedlaethol newydd gyfredol £7.83 o 1 Ebrill. Dywedodd fod golofn gyflog newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd er mwyn darparu ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol, bydd hyn hefyd yn gofyn am negodi gyda chydweithwyr undeb llafur ar lefel genedlaethol. Dywedodd y bydd cyfathrebiad yn cael ei gyhoeddi i staff yn nes ymlaen heddiw i roi gwybod iddynt am y sefyllfa, ac y byddai rhagor o newyddion yn cael ei gyflwyno wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

116. I DDERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod yr Ysgrifennydd Cabinet newydd ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Alun Davies AC, yn ystod yr wythnosau diwethaf, wedi siarad yn gyhoeddus am ei uchelgeisiau ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn fawr. Dywedodd y byddai'n hoffi cael awdurdodau lleol mwy o faint a llawer cryfach yng Nghymru ac mae wedi mynegi'r farn nad yw unrhyw un mewn llywodraeth leol yn credu bod 22 o awdurdodau lleol yn gynaliadwy a bod ad-drefnu llywodraeth leol yn ôl ar yr agenda.

Fe wnaeth yr Arweinydd hysbysu'r Cyngor ei fod wedi siarad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr wythnosau diwethaf ac wedi gofyn am sicrwydd na fydd y cydweithrediadau a phartneriaethau rhanbarthol cyfredol megis y Fargen Ddinesig, y consortiwm addysg a'r gwasanaethau a rennir mae'r Cyngor hwn wedi buddsoddi cymaint o amser ac egni ynddynt yn cael eu datgymalu neu eu hailadeiladu os bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag ad-drefnu. Hefyd fe wnaeth yr Arweinydd fynegi'r farn y bydd unrhyw ansicrwydd ychwanegol a hir ynghylch y dyfodol yn ddi-fudd wrth i'r Cyngor barhau i archwilio a datblygu ffyrdd gwahanol o weithio a gofynnodd fod unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud yn ofalus wrth gwrs, ond yn gyflym. Dywedodd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn glir y byddai'n hoffi i gynghorau arwain a llywio'r agenda hon. Nid oes unrhyw gynlluniau na chynigion na mapiau ond disgwylir clywed rhagor yn y gwanwyn. Dywedodd yr Arweinydd, beth bynnag fydd y cynlluniau diweddaraf o Fae Caerdydd byddai'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda'i holl bartneriaid, gan fantoli'r gyllideb a moderneiddio gwasanaethau a buddsoddi yn y dyfodol.

Hefyd fe wnaeth yr Arweinydd gyhoeddi, yn gynharach y mis hwn, yr ymwelodd y Gweinidog dros Dai ac Adfywio Rebecca Evans AC â chanol y dref i agor yn swyddogol y datblygiad pwysig porth Rhiw, sy'n ymgorffori maes parcio aml-lawr modern, 28 o fflatiau gyda mannau parcio dynodedig, a hefyd clwb iechyd a gaiff ei agor cyn bo hir ar y llawr gwaelod. Dywedodd fod y prosiect £10m wedi cael ei ariannu ag oddeutu £5.7m o raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniadau gan Grŵp Coastal Housing, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r buddsoddiad wedi darparu i'r Cyngor, nid yn unig siawns i amnewid yr hen faes parcio, ond hefyd cymuned newydd yn byw yng nghanol y dref. Bellach roedd rhestr aros am y fflatiau hardd, wedi'u cynllunio'n dda ac yn effeithlon iawn ag ynni, sydd â golygfeydd gwych o'r cymoedd â'r bryniau yng ngogledd y bwrdeistref. Roedd y tenantiaid, y cwpl, roedd ef a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wedi cyfarfod â nhw, yn falch iawn o'u cartref newydd.

Llongyfarchodd bawb a oedd wedi chwarae rhan wrth gyflawni'r prosiect mawr hwn. Roedd ymdrechion yn parhau i adfywio'r dref ac roedd yn edrych ymlaen at weld yr adeilad newydd yn cynnig cyfleoedd masnachol a chartrefi newydd ar Stryd Nolton ac at weld yr Adeilad Davies hanesyddol yn cael ei adfer ar gornel Stryd y Frenhines a Stryd Caroline.

Cyhoeddodd hefyd y bydd Aelodau wedi nodi'r sylw eang yn y cyfryngau ar brosiect Dŵr Mwyngloddiau Caerau, a lansiwyd yn ddiweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig,Lesley Griffiths. Gyda chyllid gwerth £6.5m yn ei le ar gyfer y cynllun, dyma ddigwyddiad cyntaf y DU a allai baratoi'r ffordd i filoedd o gartrefi gael eu gwresogi'n rhad ac yn lân gan ddefnyddio technegau geo-thermol a wnaed yn bosibl gan dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal. Roedd yn deall bod menter debyg eisoes yn rhedeg yn llwyddiannus yn yr Iseldiroedd lle mae'r dref Heerlen yn elwa o'r cynllun. Dywedodd fod gan brosiect Caerau'r potensial i roi Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar fap byd-eang, gan roi'r Bwrdeistref Sirol ar reng flaen y datblygiad cyffrous. Diolchodd bawb oedd wedi helpu i'w wneud yn realiti, ac roedd yn edrych ymlaen at glywed rhagor ynghylch sut y mae'n dod yn ei flaen.

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod dau lythyr wedi'u derbyn oddi wrth Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, y cyntaf yn gwahodd y Cyngor i ymgymryd â Chynllun Datblygu Lleol ar y cyd gydag RCT a Chaerffili. Gwahoddodd yr ail lythyr y Cyngor i ddatblygu cynllun datblygu strategol. Dywedodd ei fod yn bwysig o ran rheoli cynllunio tymor hir bod LDP cyfredol yn ei le, a bod angen i waith ddechrau ar yr LDP nesaf nawr i'w gael ei le mewn da byd ar gyfer diwedd yr LDP presennol. Hysbysodd y Cyngor Bod Cyd Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi trafod y gwahoddiad ar ddydd Llun ac o ystyried y ansicrwydd am y dyfodol a'r gwahanol gamau mae bob awdurdod wedi'i gyrraedd ar y cylch LDP fe'i penderfynwyd peidio â cheisio LDPs ar y cyd ond SDPar gyfer De Ddwyrain Cymru. Dywedodd fod hwn yn ymrwymiad mawr yn y Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac y byddai'n arf pwysig wrth gynllunio gweledigaeth tymor hir a rennir ar gyfer y rhanbarth.

Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod wedi cael gwahoddiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Uwchgynhadledd Twf Hafren. Dywedodd fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol weledigaeth hirdymor am fwy o integreiddio trawsffiniol rhwng De Ddwyrain Cymru a De Orllewin Lloegr. Cymerodd yr Arweinydd y cyfle i siarad ag uwch gynrychiolwyr o Great Western Rail a gofyn iddynt, yn eu rhyddfraint newydd, eu bod yn ystyried gwasanaethau ychwanegol o Lundain neu Fryste neu'n ymestyn gwasanaethau sy'n dod i ben yng Nghaerdydd i Abertawe neu Ben-y-bont ar Ogwr. Byddai hyn yn gwella'r amlder i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr sy'n teithio i'r dwyrain a'r gorllewin ond hefyd yn helpu i leddfu pwysau ar Orsaf Ganolog Caerdydd sy'n gweithio ar gapasiti llawn ac na allant ddarparu gwasanaethau ychwanegol sylweddol. Anogodd yr Arweinydd yr Aelodau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad www.gov.uk/government/consultations/great-western-rail-franchise , sy'n cau am 11:45 pm ar 21ain Chwefror 2018. Dywedodd y byddai'r Cyngor yn gwneud cyflwyniad ac yn cwrdd â chynrychiolwyr.

117. RHAGLEN FODERNEIDDIO YSGOLION BAND B

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim a'r Adran Gefnogaeth Teuluoedd am gymeradwyaeth o'r ymrwymiad ariannol sydd ei angen ar gyfer Band B y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion.

Dywedodd fod Grŵp Gorchwyl Ysgolion wedi cael ei sefydlu yn 2014 i sicrhau bod y Cyngor wedi cynllunio ar gyfer system addysg o ansawdd uchel a daeth yn amlwg na ellid ymgymryd â gwaith y ffrydiau gwaith unigol a sefydlwyd dan y Grŵp Gorchwyl Ysgolion ar eu hunain, gan fod dibyniaethau yn ymwneud â phob ffrwd waith ac roedd angen strategaeth gydlynol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet ym mis Medi 2015 i adeiladu ar waith y Grŵp Gorchwyl Ysgolion a rhoddwyd cymeradwyaeth i swyddogion gynnal adolygiad strategol i ddatblygu a rhesymoli'r cwricwlwm a darpariaeth ystadau addysg gynradd, uwchradd ac ôl-16. Ym Mai 2016, sefydlwyd Bwrdd Trosfwaol Arolwg Strategol, a nodwyd pedwar bwrdd gweithredol, ac roedd un ohonynt yn ymwneud yn benodol ag ystyried

blaenoriaethau buddsoddi Band B. Ystyriwyd na fyddai blaenoriaethau Band B a nodwyd yn SOP 2010 bellach yn bwysig iawn a bod angen adolygu'r materion sy'n wynebu'r Cyngor ac ysgolion i sefydlu dull strategol o fuddsoddi, gan sefydlu rhestr flaenoriaethol o gynlluniau i'w cyflwyno o fewn amserlen Band B (h.y. 2019-2024).

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim a'r adran Gymorth i Deuluoedd fod Llywodraeth Cymru yn 2017 wedi gofyn i'r awdurdodau lleol gyflwyno SOP newydd, wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu blaenoriaethau diwygiedig. Ym mis Hydref 2017, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn manylu ar ganlyniad gwaith ffrwd gwaith moderneiddio ysgolion a'r cyflwyniad SOP diwygiedig a rhoddodd gymeradwyaeth i roi'r gorau i'r cynlluniau Band B gwreiddiol a nodwyd yn adroddiad Cabinet Tachwedd 2010, a chymeradwyodd y cynlluniau Band B diwygiedig a nodir isod:

- Pen-y-bont ar Ogwr Gogledd-ddwyrain (mynediad 2 ddosbarth (AB) - grant cyfalaf
- Pen-y-bont ar Ogwr De-ddwyrain (2.5AB) - grant cyfalaf
- Ysgol Arbennig Pen-y-bont ar Ogwr (270 o leoedd) - Model Buddsoddi Cydfuddiannol
- Pen-y-bont ar Ogwr Gorllewin – Cyfrwng Cymraeg (2AB) - grant cyfalaf
- Pen-y-bont ar Ogwr Gorllewin - cyfrwng Saesneg (2AB) - grant cyfalaf

Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru ar 6 Rhagfyr 2017, wedi rhoi 'cymeradwyaeth mewn egwyddor' ar gyfer ail don buddsoddiad Pen-y-bont ar Ogwr, sydd ar hyn o bryd â chwmpas costau rhaglenni a amcangyfrifir o £68.2m, a rhagwelir y bydd oddeutu £43.2m ohoni'n cael ei hariannu gan gyfalaf, a chynigir ariannu'r gweddill trwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru (MIM). Er mwyn derbyn yr arian hwn, bydd angen i'r Cyngor gyflwyno achosion busnes manwl ar gyfer pob prosiect, gan gynnwys manylion ynghylch sut y bydd yr arian cyfatebol (tua £22.8m), sy'n ofynnol gan y Cyngor, yn cael ei ddarparu. Cynigiwyd y dylid diwallu hyn o gyllid cyfalaf cyffredinol yn y lle cyntaf (yn amodol ar setliadau Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru), gyda'r gweddillyn cael ei fodloni o arian a106, derbyniadau o werthu safleoedd ysgol a rhai eraill, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a benthyca heb gymorth. Dywedodd y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei diweddaru gyda chostau cynllun unigol a chyllid diwygiedig wrth i bob achos busnes gael ei gymeradwyo, a'i adrodd trwy'r sianeli priodol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn:

(1) cymeradwyo mewn egwyddor yr ymrwymiad ariannol sy'n ofynnol ar gyfer Band B y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion. Byddai'r gymeradwyaeth yn amodol ar adnoddau digonol yn cael eu nodi a'u dyrannu i ddiwallu'r ymrwymiad cyllid cyfatebol;

(2) cymeradwyo'r cyllid sy'n ofynnol o ran Band B o'r Rhaglen Foderneiddio Ysgolion i'w ymgorffori yn y rhaglen gyfalaf.

## 118. AILDDATBLYGU NEUADD Y DREF MAESTEG

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ar ddiweddariad ar Brosiect Neuadd y Dref Maesteg a gofynnodd am gymeradwyaeth i ddiwygio'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017-18 i 2016-27.

Dywedodd, yn dilyn trosglwyddo rheolaeth Neuadd y Dref i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn 2015, y comisiynwyd gwaith dichonolrwydd ar gyfer adfer ac adnewyddu'r adeilad a chreu lleoliad diwylliant a chelfyddydau aml-bwrpas modern.

Cafodd cynnig y cynllun ei flaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru i gael Cyllid Adeiladau ar gyfer y Dyfodol ac roedd angen achos busnes llawn ar gyfer y prosiect nawr.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y Cyngor y comisiynwyd Mace Group ym mis Awst 2017 i ddatblygu'r cysyniad dylunio, cynnal gwaith ychwanegol ar ddichonoldeb a darparu amcangyfrifon cost cywirach ar gyfer y prosiect. Roedd y gwaith dichonoldeb manwl wedi'i drefnu i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth. Rhagwelwyd mai cost y cynllun yn seiliedig ar yr uchelgais wreiddiol fyddai £5-6 miliwn, cynnydd dros yr amcangyfrif rhagarweiniol cychwynnol o £4- £5 miliwn a oedd yn adlewyrchu'r gwaith dylunio a dadansoddi peirianneg manylach ac a fydd yn cael ei fireinio ymhellach gan y gwaith parhaus. Dywedodd, nes bod y tendrau wedi'u derbyn, y byddai'r amcangyfrif o'r gost yn parhau i fod yn ddangosol, er iddo gael ei lywio gan y gwaith dylunio a dichonoldeb a wnaed hyd yn hyn. Roedd adnewyddu adeiladau hanesyddol yn gymhleth ac nes bod y gwaith dichonoldeb yn gyflawn ac roedd yr holl faterion perthnasol wedi'u nodi roedd amcangyfrif cyfalaf gwirioneddol yn anodd ei ragweld yn gywir. Hysbysodd y Cyngor y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet pan fydd y gwaith dichonoldeb a'r cynllun cost wedi'u cwblhau.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau hefyd ar gymhlethdod y prosiect cyfalaf a'i fod yn cynnwys nifer o ffynonellau cyllid posibl. Byddai cais am gyllid yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Mawrth / Ebrill 2018 a oedd wedi cadarnhau mai'r grant uchaf fyddai £2.86m.

Dywedodd fod y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol i ddyrannu £500,000 o'r rhaglen gyfalaf a bod y Cabinet wedi penderfynu'n flaenorol i warchod £800,000 o'r arian disgwyliedig o werthu tir yn Heol Ewenni ar gyfer adfywio yng Nghwm Llynfi. Dywedodd, er mwyn darparu'r sicrwydd cylar y cam cynnig, byddai angen i'r ymrwymiad hwn fod yn benodol i brosiect Neuadd y Dref Maesteg. Yn ogystal, byddai'n rhaid i'r Cyngor warantu'r derbyniadau i ddiwallu cerrig milltir y rhaglen. Hysbysodd y Cyngor fod y tir yn Heol Ewenni wedi cael ei brynu'n wreiddiol gyda grant gan Lywodraeth Cymru, a oedd wedi cadarnhau na fyddent yn dymuno adfachu'r gwerth grant gwreiddiol. Dywedodd fod £206,000 o ffioedd wedi'u tynnu hyd yn hyn, a dalwyd gan gyfuniad o gyllid dichonoldeb corfforaethol diogel a dyraniadau refeniw Cronfa Adfywio Arbennig. Byddai angen ffioedd pellach i gwblhau'r cam dylunio manwl terfynol, byddai angen cyfres lawn o arolygon ychwanegol a gwaith ymchwiliol i fodloni cynllunio a galluogi gwahodd tendrau, yr amcangyfrifwyd y byddent yn costio £175,000, a oedd wedi'i gynnwys yn nyraniad y gyllideb gyfalaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau hefyd y byddai gofyn i gytundeb partneriaeth gael ei lunio rhwng y Cyngor ac Awen yn cwmpasu cyflenwi prosiectau, risgiau prosiect a threfniadau ariannu a rheoli ar gyfer y contract ac Neuadd y Dref. Nid oedd yn glir ar hyn o bryd pryd fyddai Llywodraeth Cymru a Threftadaeth y Loteri yn gofyn am hyn. Rhagwelwyd y byddai gwaith yn cychwyn erbyn haf 2019, ac y byddai gwaith yn cychwyn ar y safle yn gynnar yn 2020, os ceir yr holl arian.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mai rhan hanfodol o'r pecyn cyllido yw defnyddio derbyniadau cyfalaf a ddaw o waredu'r tir yn Heol Ewenni nad yw wedi digwydd eto. Gan nad yw'r arian wedi'iddiogelu, byddai angen cytundeb penodol i'w ddefnyddio ar gyfer prosiect Neuadd y Dref Maesteg. Dywedodd y bydd cyllid cyfatebol wedi'i ddiogelu ar gyfer y prosiect yn ofyniad i Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri cyn rhoi cymeradwyaethau grant terfynol. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y trafodiad gwerthu wedi'i gwblhau cyn Mai 2019 yn unol â cherrig milltir y prosiect. Hysbysodd y Cyngor fod Awen wedi rhoi ymrwymiad i ddod o hyd i gyfraniadau grant elusennol tuag at gost gyffredinol y prosiect hyd at werth £500,000. Eglurodd na fyddai unrhyw waith cyfalaf yn cael ei wneud na gwariant cyfalaf yn cael ei dynnu hyd

nes y byddai'r sefyllfa gyllido allanol wedi'i chwblhau yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Mynegodd Aelod o'r Cyngor bryder na fyddai'r cynllun ailddatblygu yn cael ei gyflawni oni bai fod y pecyn cyllido llawn wedi'i sicrhau. Mynegwyd pryder hefyd y gallai fod diffyg cyllido, a gofynnwyd am sicrwydd gan yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn trin y cynllun hwn mor deg ag a oedd wedi'i wneud gyda chynllun Adfywio Porthcawl trwy ddarparu arian cyfatebol. Hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor na allai ddarparu'r sicrwydd hynny gan y byddai'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad ar arian cyfatebol. Rhoddodd sicrwydd fod y Cyngor wedi ymrwymo i ailddatblygu Neuadd y Dref eiconig ym Maesteg ac roedd yn hyderus y byddai cyllid yn dod o'r gwahanol fecanweithiau cyllido.

Holodd Aelod o'r Cyngor pa gynlluniau eraill fyddai'n cael eu heffeithio os na chynhyrchir y derbyniadau cyfalaf o werthu tir yn Heol Ewenni a bod y cynllun yn cael ei ariannu trwy dderbyniadau cyfalaf cyffredinol. Hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor fod y datblygwr tir yn Heol Ewenni wedi buddsoddi yn y datblygiad hwn a chredai y byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni.

Cyfeiriodd Aelod o'r Cyngor at yr eitemau gwaith ychwanegol a nodwyd, sef teils waliau, trawstiau a thrydan a gofynnodd a oedd y gwaith hwn wedi'i nodi fel gwaith brys. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y bydd y gwaith dichonoldeb manylach yn nodi'r gwaith ychwanegol y dylid mynd i'r afael ag ef a'i fod yn hyderus y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei sicrhau.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb gyfalaf gynyddol o £5.168 miliwn ar gyfer ailddatblygiad arfaethedig Neuadd y Dref Maesteg, sy'n cynnwys £800,000 ychwanegol o dderbyniadau cyfalaf, a gynhyrchir naill ai trwy werthu'r tir yn Heol Ewenni, neu dderbyniadau cyfalaf cyffredinol, os digwydd fod derbyniadau Ffordd Ewenni yn methu â chael eu gwireddu neu os byddant yn is na'r derbyniadau a ragwelir ynghyd â chyllid diwygiedig o ffynonellau allanol.

## 119. CAIS CYNLLUNIO CROES

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu fod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn ei gyfarfod ar 21 Rhagfyr 2017, wedi ystyried cais cynllunio P/17/373 / FUL fel un croes i'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi penderfynu peidio â gwrthod caniatâd cynllunio a chyfeiriwyd y cais at y Cyngor gan gofyn iddo gymeradwyo'r cais ond ag amodau.

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu fod y cais yn ceisio caniatâd ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd o uned fanwerthu (Dosbarth A1) i Bwll Nofio Aelodau'n Unig (Dosbarth D2), fel y'i diffinnir gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, yn Uned 12d Adeiladau Ffordd y Brenin, Ffordd y Brenin, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae safle'r cais wedi'i leoli o fewn Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael ei ddyrannu a'i ddiogelu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sy'n dod o fewn defnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8, defnyddiau cyflogaeth gan bolisïau REG1 (2) a REG2 o'r Cynllun Datblygu Lleol (LDP) mabwysiedig.

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu fod y cais yn ailgyflwyniad o gais blaenorol ar gyfer "Newid defnydd o fan manwerthu gwersylla a gwerthiannau hamdden i ysgol nofio breifat a ffurfio pwll nofio o fewn y lle" dan gyfeirnod cynllunio P/16/488 / FUL . Dywedodd fod y cais a ailgyflwynwyd, fel y'i ystyriwyd gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn cynnwys datganiad cynllunio i fynd i'r afael â pholisi lleol a chenedlaethol. Mae'n cydnabod bod y busnes wedi cychwyn heb ganiatâd ond mae'n ceisio caniatâd ôl-

weithredol eto ar sail nifer o newidiadau i'r busnes. Mae'r datganiad hefyd yn cadarnhau bod Water Wings yn bwll aelodau preifat sy'n darparu gwersi nofio i aelodau o Ysgol Nofio Water Wings yn unig. Mae aelodaeth wedi'i gynnwys o fewn cost prynu bloc o wersi ac mae'r ysgol hefyd wedi lleihau oriau agor ar gyfer y cyfleuster Water Wings.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor o blaid peidio â gwrthod y datblygiad a rhoi pwerau llawn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad mewn cysylltiad â'r cynnig hwn yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.

120. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2016-17 - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Sarah-Jane Byrne, Rheolwraig Llywodraeth Leol a Samantha Clements o Swyddfa Archwilio Cymru a fyddai'n cyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor.

Hysbysodd Rheolwr Llywodraeth Leol Swyddfa Archwilio Cymru fod yr Archwilydd Cyffredinol yn gorfod cynnal asesiad gwella blynyddol a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Dywedodd, yn gyffredinol, fod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn cysylltiad â gwelliant parhaus ac yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

Rhoddodd y Rheolwraig Llywodraeth Leol drosolwg i'r Cyngor o brif ganfyddiadau'r prosiectau a gynhaliwyd ganddo:

- Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Gwasanaeth
- Llythyr Archwilio Blynyddol 2015-16
- Cynllunio Arbedion
- Dilyniant Asesiad Corfforaethol
- Archwiliad Blynyddol y Cynllun Gwella
- Asesiad Blynyddol o Archwiliad Perfformiad

Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion na chynigion ffurfiol ar gyfer gwelliant. O ran y prosiect Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau i'r Gwasanaeth, roedd y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r materion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phob maes y mae angen ei wella. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi canfod bod gan y Cyngor flaenoriaethau clir sy'n llunio ei benderfyniadau ar newid sylweddol mewn gwasanaethau ac mae'n ceisio dysgu a gwella trefniadau, ond mae lle i wella hygyrchedd rhywfaint o wybodaeth. Canfu hefyd fod y Cyngor yn elwa o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir yn gyffredinol, a pherthynas weithio gadarnhaol rhwng swyddogion ac aelodau. Yn nodweddiadol, mae'r Cyngor yn ystyried ystod o opsiynau ar gyfer newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth a gefnogir gan wybodaeth glir, ond nid yw gwerthusiad ffurfiol o opsiynau yn cael ei gynnwys ar y cyfan. Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefniadau ymgynghori effeithiol wrth ystyried newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth ac mae'n parhau i'w datblygu, er y gellid gwella hygyrchedd gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn monitro arbedion ariannol ac effaith rhai newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau, er y gellid cryfhau hyn trwy nodi'n glir sut y bydd yr effaith yn cael ei monitro ar adeg y penderfyniad. Mae'r Cyngor yn dysgu o'i brofiad i wella ei drefniadau ar gyfer penderfynu a chyflwyno newidiadau i'r gwasanaeth.

Diolchodd yr Arweinydd i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru am eu hymrwymiad ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol, yr hyn yr oedd yn credu ei fod yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Cyngor ond hefyd roedd yn nodi bod lle i wella bob amser.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r Adroddiad Gwella Blynyddol a'r adroddiad Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaeth a gynhyrchir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

121. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 adroddiad, ei bwrpas oedd rhoi gwybodaeth i'r Cyngor ynghylch gweithredu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) 2011/19 (i'w fabwysiadu erbyn 31 Ionawr 2018), ynghyd â'r goblygiadau ariannu.

Cadarnhaodd hi, ar 11 Ionawr 2017, y mabwysiadodd y Cyngor yr CTR ar gyfer 2017-18 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Ar hyn o bryd roedd 13,892 o gartrefi yn derbyn CTR, roedd 8,517 o'r rhain o oedran gweithio a 5,375 o oedran pensiynadwy. O'r 13,892 o aelwydydd sy'n derbyn CTR, roedd gan 10,615 yr hawl i ostyngiad CTR llawn.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog Adran 151 bod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 bellach wedi'u gosod gan wneud gwelliannau i:

- Adlewyrchu newidiadau a wnaed i'r system fudd-daliadau mewn cysylltiad â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Gwneud newidiadau i adlewyrchu trefniadau darparu gwasanaeth newydd yn dilyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- Gwneud newidiadau i fynd i'r afael ag anghysondeb o fewn geiriad y darpariaethau diwygio a gynhwysir o fewn Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017 ynghylch darpariaethau ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau.
- Gwneud nifer o newidiadau mewn cysylltiad â thaliadau sy'n cael eu diystyru at ddibenion cyfrifo 'incwm' ac/neu 'gyfalaf'. Mae'r rhain yn cynnwys y taliadau cymorth profedigaeth newydd ymhlith eraill.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 nad oedd y rheoliadau newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o safbwynt yr hawliwr i'r cynllun presennol, a bod y lefel uchaf o gymorth y gallai hawlwyr cymwys ei hawlio'n aros ar 100%. Eglurodd y disgresiwn cyfyngedig a roddir i'r Cyngor, i gymhwyso elfennau dewisol a oedd yn fwy hael na'r cynllun cenedlaethol. Cynigiwyd y dylai'r elfennau dewisol fod fel sy'n dilyn:-

- Cynhelir y cyfnod talu estynedig ar yr isafswm safon o 4 wythnos.

- Mae Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel yn cael eu diystyru'n llawn wrth gyfrifo hawl i CTR. Y gost a amcangyfrifir am y cynnig hwn yw £15,300.

- Cynhaliwyd ôl-ddyddio ar yr isafswm safon o 3 mis.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 mai'r cyfanswm cost amcangyfrifedig i'r Cyngor am y cynigion hyn yw £15,300 ar gyfer 2018-19.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 y Cyngor fod rhaid iddo ystyried a ddylid ailosod neu ddiwygio ei gynllun CTR a bod rhaid iddo wneud cynllun o dan

ofynion y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Mae'r rhwymedigaeth yn ddyletswydd statudol ac mae'n gymwys hyd yn oed pe byddai'r Cyngor yn dewis peidio â chymhwyso unrhyw un o'r disgresiynau sydd ar gael iddo. Dywedodd mai ymagwedd argymelledig y Cyngor i'r disgresiynau sydd ar gael yw cymhwyso'r argymhellion yn Nhabl 4, paragraff 4.23 yr adroddiad. Nid oes arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r elfennau dewisol a rhaid i'r cynllun gael ei weinyddu gan awdurdodau lleol o fewn cyllideb sefydlog.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn:

(a) Nodi'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a rheoliadau diwygio 2014, 2015, 2015, 2016 a 2017.

(b) Mabwysiadu'r cynllun, y rhoddwyd manylion yn ei gylch ym mharagraffau 4.18 i 4.24 yr adroddiad.

122. I DDERBYN Y CWESTIYNAU DILYNOL I'R CABINET

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet Cymunedau gan y Cynghorydd Tim Thomas

Yn ystod y cynllun ariannol tymor canolig nesaf, beth fydd y Cyngor hwn yn ei wneud i sicrhau bod pobl sy'n byw ag anableddau yn gallu cael mynediad llawn i ffyrdd, strydoedd a phriffyrdd maent yn eu defnyddio o ddydd i ddydd yn eu cymuned?

Ymateb:
Caiff yr holl gerbydau a llwybrau troed eu harolygu'n rheolaidd, yn unol â'r cod ymarfer mae diffygion "Priffyrdd a gynhelir yn dda" sy'n fwy na meini prawf a gytunwyd yn genedlaethol yn cael eu trwsio yn unol ag amseroedd ymateb priodol. Mae hyn yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod y briffordd yn ddiogel i'w defnyddio gan holl aelodau'r cyhoedd.

Pan dderbynnir ceisiadau i cyflwyno cyrbau gollyngedig ar gyffyrdd, ar hyn o bryd, gosodir gwelliannau o'r fath ar y cyd â gwaith cynnal a chadw priffyrdd a gynhelir i ail-greu llwybr troed, pan fydd ei gyflwr wedi dirywio i'r fath raddau ei fod yn cael ei ystyried yn beryglus. Mae'r gyllideb gynnal a chadw priffyrdd yn gyfyngedig a byddem yn cynghori nad yw wedi bod yn bosib ariannu gosod cymhorthion cerddwyr ar wahân yn y gorffennol. Pan dderbynnir ceisiadau unigol, fe'u cofrestrir i'r Gofrestr Waith ac fe'u hystyrir pan fo arian ar gael, ar hyn o bryd mae dros 100 o leoliadau ar y gofrestr. Fodd bynnag, mae cynghorau tref a chymuned eisoes wedi ariannu gwelliannau unigol yn eu hardaloedd ac mae'r rhain wedi'u gosod yn unol â'r cyfarwyddyd cyfredol.

Gwneir ceisiadau bob blwyddyn am arian cyfalaf i ymgymryd â rhai o'r strydoedd a gofnodir ar y gofrestr waith, a rhoddwyd arian eleni i dargedu'r lleoliadau hynny lle'r oedd ceisiadau wedi'u derbyn. Rhoddwyd £50,000 o archebion i'r contractwr cynnal a chadw cyfredol i ymgymryd â'r mathau hyn o waith yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r strydoedd ar y gofrestr waith wedi cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar gategoreiddio'r llwybr troed, sy'n seiliedig ar y cod ymarfer. Mae gan strydoedd sydd wedi'u categoreiddio'n uwch fwy oddefnyddwyr, ac felly maent wedi'u targedu yn gyntaf. Gan fod y lleoliadau hyn ar gyffyrdd cerbytffyrdd, defnyddir categori uwch y ddwy stryd a ymunir i asesu'r flaenoriaeth.

Mae unrhyw waith priffyrdd newydd yn cydymffurfio â'r deddfau priodol ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r DDA.

Os oes problemau ynghylch mynediad o eiddo preifat i'r briffordd, mater i'r eiddo preifat

yw mynd i'r afael â hwy o fewn eu ffiniau.

Gofynnodd y Cynghorydd Thomas gwestiwn atodol ynghylch a fyddai'r cyllid o £50,000 yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Cymunedau na fyddai'r cyllid o £50,000 yn cwmpasu'r ôl-groniad sy'n fater i'r sir gyfan.

Tynnodd y Cynghorydd Webster sylw at yr anawsterau a brofwyd gan drigolion ward Newcastle â phobl yn parcio mewn strydoedd er mwyn cyrraedd canol y dref a holodd a ellid gweithredu cynlluniau parcio pellach ar gyfer preswylwyr er mwyn lliniaru'r broblem. Gofynnodd yr Aelod Cabinet Cymunedau i'r Cynghorydd Webster a'r Cynghorydd T Thomas roi manylion iddo am y strydoedd yr effeithiwyd arnynt yn eu ward er mwyn iddo ofyn i'r swyddogion edrych ar y problemau a amlygwyd.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yr Aelodau fod gan y Cyngor raglen flaenoriaethu ar gyfer parcio i breswylwyr a gellid ystyried ceisiadau am gyrbiau gollyngedig fel rhan o gyllid o fewn y rhaglen gyfalaf.

**<u>Cwestiwn i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gan y Cynghorydd Altaf Hussain</u>**

Yn ôl Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys Cymru, mae Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys mewn Ysbytai Cymreig yn debyg i faes y gad. Mae Llywodraeth Cymru yn beio achosion ffliw, cynnydd mewn galwadau dros y Nadolig a Norofirws y Flwyddyn Newydd. Dywedodd Dr Robin Roop, Is-Lywydd RCEM Cymru, i staff adran frys, mae'n teimlo fel maesy gad, mae diogelwch cleifion yn cael ei gyfaddawdu, mae hyn yn anniogel, yn anurddasol ac yn peri gofid i gleifion a'u perthnasau. Roedd yn rhaid i nifer o Fyrddau Iechyd ledled Cymru ohirio llawdriniaeth oherwydd pwysau'r gaeaf. Fe wnaeth ABMU ganslo'r rhan fwyaf o lawfeddygaeth gynllunedig arferol. Mae Ysgrifennydd Iechyd Cymru wedi ymddiheuro i'r cleifion y mae eu llawfeddygaeth wedi cael e chanslo.

Mae hyn yn golygu y bydd mwy o gleifion, yn arbennig pobl hŷn, yn cael eu derbyn trwy adran Ddamweiniau ac Achosion Brys gyda Ffliw, problemau Anadlol, cwympiadau ac ati. Bydd rhai o'r cleifion hyn yn cael eu rhyddhau cyn bo hir.

A ydym wedi ein cyfarparu'n ddigonol o ran y Gofal Cymdeithasol ar gyfer y cleifion hyn a ryddheir ar Lefel y Cyngor ac a fydd yr aelod Cabinet yn sicrhau'r siambr na fydd unrhyw syndrom blocio gwelyau yn ein hysbytai oherwydd oedi mewn gofal cymdeithasol?

**<u>Ymateb:</u>**

Teimlir effaith 'pwysau'r gaeaf' ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan ac felly mae'n rhaid i'r ymateb i'r pwysau hyn ddod o'r system gyfan hefyd. Pan fydd yr ysbyty ar uwchgyfeirio Lefel 4, mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar gapasiti ein timau cymunedol.

Y cyd-destun ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw bod timau integredig sefydledig a hanes cryf o weithio mewn partneriaeth ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod gennym berthynas gryf a phrosesau ar waith y gallwn ni ddibynnu arnynt ar adegau heriol o'r fath. Ar hyn o bryd mae gennym alwadau cynadledda ffôn dyddiol gyda'r ysbyty POW ar gyfer pobl yn cael eu rhyddhau ym maes gofal cymdeithasol a chyfarfodydd dyddiol ar gyfer llif ysbyty ehangach. Mae uwch reolwyr ar y ddwy ochr yn ymrwymedig i gyfathrebu'n rheolaidd i ddatrys problemau ar y cyd ynghylch y sefyllfaoedd hynny sy'n gwarantuuwchgyfeirio. Er mwyn ymateb i'r pwysau presennol ar ofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r dilynol wedi eu sefydlu:

• Tîm cymunedol integredig sy'n cynnwys 2 Meddyg Cymuned
• Tîm Clinigol Acíwt yn ei le sy'n gweithredu dros 7 diwrnod
• Tîm gwaith cymdeithasol ysbyty sy'n canolbwyntio eu sylw ar ryddhau'n effeithiol
• Mae 2 aelod o staff sydd rhyngddynt yn mynychu pob cylch bwrdd priodol ac yn derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol, mae hon yn ymagwedd ragweithiol i sicrhau bod cleifion, sy'n addas i'w rhyddhau o safbwynt feddygol, yn cael eu 'tynnu' o'r ysbyty
• Gwasanaeth Gwell yn y Cartref ar waith sy'n wasanaeth rhyddhau tymor byr sy'n hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn gynnar fel nad yw cleifion yn aros am asesiad gwaith cymdeithasol neu wasanaeth gofal arall.

Ar hyn o bryd, mae BCBC wedi gallu ymateb yn gyflym ac yn briodol ac mae'r nifer o achlysuron rhyddhau lle roedd oedi oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol ar unrhyw un adeg yn isel iawn ac mae'r rhain yn cael blaenoriaeth uchel iawn. Mae problemau ehangach yn y system, er enghraifft mae prinder gwelyau EMI nyrsio o fewn y Bwrdeistref. Er bod cynlluniau ar waith i ddatblygu'r sector hwn, bydd hyn yn cymryd rhai misoedd i'w cyflawni.

Gofynnodd y Cynghorydd Hussain gwestiwn atodol, ynghylch a oes cynllun uchelgeisiol i fynd drwy'r blynyddoedd anodd ar lefel leol fel ein bod ni wedi paratoi'n dda ar gyfer blynyddoedd y dyfodol y mae'r panel wedi rhybuddio amdanynt. Cyfeiriodd hefyd at y pryderon ynglŷn â'r symudiad o ABMU i Fwrdd Iechyd Cwm Taf a chan mai BCBC yw'r prif randdeiliaid sy'n hwyluso'r symudiad, a ydynt wedi ystyried codi'r mater hwn gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf i sicrhau bod cleifion yn trosglwyddo o gyfleusterau iechyd i ofal cymdeithasol mor llyfn â phosibl a pha drafodaethau maen nhw wedi'u cael gyda Chwm Taf o gwmpas ymaes hwn?

Dywedodd Aelod Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y Cabinet fod angen diwygio'n lleol ac yn genedlaethol fel ei gilydd a bodangen ymagwedd bartneriaeth. Rhoddodd sicrwydd y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau na fyddai trigolion yn aros yn yr ysbyty yn hwy nag yr oedd ei angen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y Cyngor bob amser yn uchelgeisiol a bod ganddo hanes da ynghylch trosglwyddiadau i ofal a'i fod yn y chwartel uchaf ar gyfer perfformiad. Hysbysodd hi'r Cyngor hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi lansio adolygiad o ffiniau bwrdd iechyd yn ddiweddar ac y byddai cyflwyniad ar y cynigion yn cael ei wneud i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth lle byddai'r Prif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn bresennol.

123. HYSBYSIAD O GYNNIG

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl a chaiff ei ohirio i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

124. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

125. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ddilynol ag gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn gweithredu'r prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem ddilynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'i gwahardd o'r cyfarfod, gan ei fod o'r farn, o dan yr holl amgylchiadau yn ymwneud â'r eitem, fod budd y cyhoedd o ran cynnal yr esemptiad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

126. PECYNNAU DISWYDDO AC YMDDEOLIAD CYNNAR YN CYFLWYNO COSTAU SY'N FWY NA £100,000

Daeth y cyfarfod i ben am 16:52